# Cyngor Adeiladau Hanesyddol CYMRU

# 44ain

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1999 – 2000



# Cyngor Adeiladau Hanesyddol CYMRU

## 44ain

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**1999–2000**

Cyhoeddwyd gan
Gynulliad Cenedlaethol
Cymru yn unol ag
Adran 2(8) Deddf
Adeiladau Hanesyddol
a Henebion 1953,
fel y'i cymhwysir gan
Adran 3 y Ddeddf honno
ac fel y'i diwygiwyd gan
adran 45 Deddf
Llywodraeth Cymru 1998

ⓗHawlfraint y Goron 2000

ISBN 1 85760 137 8

Cyhoeddwyd gan Cadw: Welsh Historic Monuments

*Clawr:* Y Swyddfa Bost, Ynys Bŷr.

Adeiladau'r Goron,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ

At sylw
*Ms Sue Essex*
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2000. Hwn yw ein 44ain adroddiad ond mae'n ymwneud â'r flwyddyn gyntaf y buom yn rhoi cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bu'n bleser gan aelodau'r Cyngor roi cyngor annibynnol a diduedd nid yn unig ynghylch ceisiadau unigol i atgyweirio adeiladau hanesyddol ond hefyd ynghylch materion sy'n achosi pryder ar hyn o bryd yn ogystal â pholisi cyffredinol ar faterion sy'n effeithio ar dreftadaeth adeiledig Cymru. Yr ydym wedi ymfalchïo yn ein gwaith gan gael mwynhad mawr iawn o helpu i ddiogelu rhai o'r adeiladau pwysicaf o ran pensaernïaeth a hanes sydd gan Gymru i'r genhedlaeth bresennol ac i'r cenedlaethau i ddod.

Gyda dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn wir, y mileniwm newydd, yr ydym yn ymwybodol ein bod yn byw mewn oes gyffrous sy'n symud yn gyflym. Gyda chymaint o newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwerthfawrogir ein hamgylchedd hanesyddol fwyfwy – ein dolen gyswllt â'r gorffennol. Barn y Cyngor yw ei bod yn hanfodol bwysig ceisio hyrwyddo ymwybyddiaeth well o bwysigrwydd cadwraeth, er ei mwyn ei hun a hefyd er mwyn y gwerth ychwanegol y mae'n gallu ei ddwyn i'r gymdeithas gyfan. Er enghraifft, mae atgyweirio adeiladau hanesyddol fel y gellir parhau i'w defnyddio neu fel y gellir eu hailddefnyddio yn ei hanfod yn ddefnydd cynaladwy o adnoddau a gall gyfrannu at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â rhoi pleser i berchenogion ac ymwelwyr.

Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i symud â'r oes ac i ymateb i ofynion a blaenoriaethau sy'n newid. Bu'n gweithio'n agos gyda Cadw i baratoi cynllun grantiau diwygiedig sy'n canolbwyntio ar yr adeiladau hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf a'r rheiny y mae'n amlwg eu bod yn perthyn i Gymru, er enghraifft, adeiladau brodorol a'r rheiny sy'n arbennig o berthnasol i dreftadaeth ddiwydiannol Cymru.

Hefyd y mae'r Cyngor am sicrhau bod ei rôl a'r meini prawf y mae'n asesu ceisiadau grant yn eu herbyn yn cael eu deall a'u bod ar gael er gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn nododd yn ffurfiol y fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r Cyngor, ei gylch gorchwyl, ei nodau, ei feini prawf asesu a'i amcanion ar gyfer y flwyddyn 2000 a thu hwnt yn yr adroddiad hwn. Atodir copi o'r papur sefyllfa ar gyfer 1999–2000 wrth yr adroddiad hwn; fe'i adolygir yn flynyddol.

Mae'r adroddiad canlynol yn arolygu busnes y flwyddyn gan roi manylion yr eiddo yr argymhellwyd y dylai dderbyn cymorth. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at eich cynghori ymhellach yn 2000–2001.

**Thomas Lloyd**
*Cadeirydd*

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Aelodau'r Cyngor | 6 |
| Arolwg o Fusnes y Flwyddyn | 7 |
| • ymweliadau | 7 |
| • ceisiadau a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn | 8 |
| • projectau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | 15 |
| • mentrau/materion cyfredol | 18 |
| • costau CAH | 20 |
| • cydnabyddiaethau | 20 |
| Atodiad A — Crynodeb Grantiau | 21 |
| Atodiad B — Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol | 23 |
| Atodiad C — Grantiau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth | 36 |
| Atodiad D — Rôl a Chyfeiriad Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn y Dyfodol | 39 |
| • Atodlen A | 42 |
| • Atodlen B | 44 |

## Aelodau'r Cyngor

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Thomas Lloyd Ysw MA FSA |
| Aelodau: | Dr Prys Morgan MA DPhil FRHistS FSA DL<br>Dr Simon Unwin BSc BArch PhD RIBA<br>Mrs Sara Furse DipArch<br>Dr Eurwyn Wiliam MA PhD FSA<br>Miss Elizabeth Evans DipArch ARIBA<br>Dr Roger Wools BArch PhD DipCons (Caerefrog) RIBA |
| Aseswyr Pensaernïol: | J D Hogg Ysw RIBA ARIAS FSA Scot<br>R M Wall Esq BArch BSc (Anrh)<br>(Cadw: Welsh Historic Monuments) |
| Ysgrifennydd: | R W Hughes Ysw<br>(tan fis Mehefin 1999)<br>Mrs J M Booker<br>(er mis Gorffennaf 1999)<br>(Cadw: Welsh Historic Monuments) |
| Ysgrifennydd Cynorthwyol: | K Jones Ysw<br>(tan fis Mehefin 1999)<br>K J Alexander Ysw<br>(er mis Gorffennaf 1999)<br>(Cadw: Welsh Historic Monuments) |

AROLWG O FUSNES Y FLWYDDYN

## Ymweliadau

Cyfarfu'r Cyngor bum gwaith yn ystod y flwyddyn mewn mannau cyfarfod yn ardaloedd Bae Colwyn, Crucywel, Dolgellau, Pen-y-Bont ar Ogwr a Chaerdydd.

Mewn cysylltiad â'r cyfarfodydd hyn, ymwelsom â nifer o ymgeiswyr am gymorth. Hefyd ymwelsom ag eiddo a dderbyniasai gymorth grant fel y gallem archwilio'r gwaith gorffenedig – sef canlyniad ein trafodaethau yn y pen draw.

Roeddem yn arbennig o falch o weld y cynnydd yng ngwaith atgyweirio ac adfer Tŷ'r Sgêr, Pen-y-Bont ar Ogwr. Ystyriasai'r Cyngor yr eiddo adfeiliedig hwn yn un eithriadol rai blynyddoedd ynghynt ond roedd anawsterau o ran prynu'r safle a chael mynediad i'r safle o'r brif ffordd wedi golygu bod dechrau'r project wedi'i ohirio tan eleni. Gweithredodd yr Ymddiriedolaeth Adeiladau mewn Perygl y cynllun gyda chymorth gan Cadw ar gyfer gwaith oedd yn gysylltiedig â phrynu'r eiddo a chan Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer y gwaith atgyweirio ac adfer ac i atgyfnerthu'r pen adfeiliedig a'i droi'n ardd â mur o'i hamgylch. Ein gobaith yw y bydd yr Ymddiriedolaeth yn dod o hyd i brynwr ar gyfer yr eiddo ac y bydd yr eiddo, y bu bron iddo gael ei golli, yn gallu mwynhau bywyd defnyddiol unwaith eto.





*Tŷ'r Sgêr, ger Porthcawl.*
Uchod: *Cyn y gwaith atgyweirio (Hawlfraint: Buildings at Risk [John Chapman Photographic]).*
Chwith: *Gwneud y gwaith.*



Uchod ac i'r dde: *Mae'r Cynllyn Tref Hanesyddol yn Nolgellau yn cynorthwyo perchenogion gyda gwaith atgyweirio gofalus i adeiladau yn yr ardal gadwraeth.*

Gobeithiwn hefyd y caiff yr anawsterau sydd wedi rhwystro'r gwaith o atgyweirio Neuadd Hafodunos yng Nghonwy, a gynlluniwyd gan Gilbert Scott, eu datrys cyn hir. Ymwelsom â'r eiddo ym mis Ebrill 1999 ac yr oeddem yn pryderu am y modd yr oedd yr adeilad wedi dirywio ac am fod nodweddion hanesyddol pwysig wedi'u colli, o ganlyniad i ladrata a fandaliaeth. Y mae'r Cyngor o'r farn bod yr eiddo o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol eithriadol ac mae Cadw wedi cynnig ystyried rhoi cymorth grant. Hyderwn, os na ddeuir o hyd i berchennog newydd, y bydd yr awdurdod lleol yn cymryd camau i sicrhau bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud fel na chollir y tŷ Fictoraidd pwysig hwn sy'n adeilad rhestredig Gradd 1.

Hefyd yr oedd yn dda gan y Cyngor nodi cynnydd yng Nghynllun Tref Hanesyddol Dolgellau a weithredir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lle mae perchenogion lleol wedi dangos cryn ddiddordeb mewn ymgymryd â gwaith atgyweirio sy'n gydnaws â natur yr ardal gadwraeth. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Cadw wedi cyfrannu rhyw £0.5 miliwn i brojectau yn y treflun hanesyddol sydd, ynghyd â chyfraniadau'r perchenogion, wedi golygu bod rhyw £1 miliwn wedi'u cyfeirio i atgyweirio adeiladau hanesyddol yn Nolgellau. Hefyd calonogwyd y Cyngor gan gynlluniau Cyngor Sir Conwy i ddiogelu ac adfer adeiladwaith hanesyddol canol tref Bae Colwyn o dan Fenter Treftadaeth y Treflun, wedi'i gynorthwyo gan Cadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill. Nid yn unig y bydd y fenter yn cynorthwyo i warchod treftadaeth adeiledig ond hefyd bydd yn cynorthwyo i adfywio ardaloedd dirywiedig yn economaidd ac yn gymdeithasol trwy ailddefnyddio eiddo gwag. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at weld cynnydd yng nghynlluniau THI mewn trefi eraill yng Nghymru.

Nodasom â chryn siomedigaeth nad oedd eglwys Dewi Sant, Llangyfiw yn cael ei defnyddio bellach i addoli, wedi'r cyhoeddiad ei fod bellach yn adeilad segur. Yr oeddem yn falch serch hynny fod Cyfeillion Eglwysi Digyfaill a'r Eglwys yng Nghymru o'r farn mai cymaint oedd ei werth fel y dylid ei mabwysiadu ym Mheirianwaith yr Eglwysi Segur. Ni chafodd y Cyngor unrhyw anhawster i gytuno bod yr eglwys ddymunol hon yn eithriadol ac yr ydym yn edrych ymlaen at weld y gwaith atgyweirio yn cael ei orffen.

## Ceisiadau a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn

Fel mewn blynyddoedd cynt, ystyried ceisiadau grant unigol a rhoi cyngor i Cadw ar rinweddau'r eiddo dan sylw oedd rhan fawr o waith y Cyngor. Bu'r Cyngor yn cynghori ynghylch pa



eiddo oedd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol eithriadol, sef y gofyniad deddfwriaethol ar gyfer grant o dan y Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953. Hefyd mae'n gwneud argymhellion ar ba brojectau a allai wneud cyfraniad sylweddol at wella a gwarchod yr ardal gadwraeth ar gyfer grant ardal gadwraeth o dan Ddeddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Cyfanswm yr arian a fu ar gael i dalu grantiau cyffredinol i adeiladau hanesyddol ym 1999–2000 oedd £3.314miliwn, y neilltuwyd £0.225m ohono ar gyfer cymorth grant i eglwysi cadeiriol. Cynnydd o 3% oedd hyn dros arian y flwyddyn flaenorol.

Ystyriwyd 189 o geisiadau i gyd gan y Cyngor. Cynigiwyd y grant uchaf i Allt-y-Bela, Llangwm, Sir Fynwy yr argymhellwyd iddo dderbyn cefnogaeth o £263,000. Cynigiwyd grant at gost y gwaith i adfer adeilad ac amlen allanol y tŷ ffrâm nenfforch canoloesol a'r tŵr sydd yn arddull y Dadeni, yn ogystal ag at y gost o atgyweirio ac amnewid nodweddion mewnol. Un o'r grantiau lleiaf a gynigiwyd oedd £1,200 ar gyfer gwaith atgyweirio i do a phennau simnai talwyneb blaen yr eiddo yn 14 Victoria Terrace, Biwmares, Ynys Môn. Cynigiwyd wyth deg chwech o grantiau mewn egwyddor yn ystod y flwyddyn. Am ryw reswm neu'i gilydd, ni fydd pob un o'r cynlluniau hyn yn mynd yn ei flaen a bydd y grant a gynigir yn amrywio yng ngoleuni'r tendrau a dderbynnir. Ond y mae'r cynigion a nodir isod yn adlewyrchu argymhellion y Cyngor.

| **Ceisiadau am grant 1999–2000** | **Nifer** | **Gwerth** |
|---|---:|---:|
| Cyfanswm y ceisiadau | 189 | — |
| Cynigion mewn egwyddor | 86 | £1,947,790 |
| Adeiladau eithriadol — seciwlar | 37 | £1,169,268 |
| Adeiladau eithriadol — eglwysig | 16 | £402,412 |
| Grant ardal gadwraeth | 33 | £376,110 |

Mae Atodiadau B a C yn rhoi manylion byr am yr eiddo y cynigiwyd grantiau iddo mewn egwyddor yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer adeiladau o bob math a chan unigolion preifat, sefydliadau elusennol a sefydliadau eraill ac awdurdodau lleol. Croesawodd y Cyngor yn arbennig duedd gynyddol tuag at geisiadau ar gyfer gwaith atgyweirio i adeiladau brodorol ac mae'n mawr obeithio y daw rhagor o gyfleoedd i atgyweirio adeiladau sy'n arbennig o bwysig i dreftadaeth Cymru. Nodir ceisiadau diddorol a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn yr astudiaethau achos canlynol.

## CEISIADAU A YSTYRIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN: ASTUDIAETHAU ACHOS

**Bron-y-Foel-Isaf, Dyffryn Ardudwy, Gwynedd**

Saif Bron-y-Foel-Isaf mewn celli ar lan nant yng nghefn gwlad neilltuol o wyllt a diffaith ryw filltir neu'i gilydd o Ddyffryn Ardudwy wrth droed y Rhinogau. Nid yw ei ffurf allanol wedi newid fawr ddim mewn pedwar cant o flynyddoedd, sy'n tystio i safon yr adeiladwaith gwreiddiol.

Ac yntau wedi'i adeiladu tua 1580, enghraifft odidog ydyw o dŷ o'r cyfnod ôl-ganoloesol a fu'n eiddo i uchelwyr lleol, a thŷ sy'n go arbennig am y ffaith ei fod wedi goroesi hyd heddiw. Y mae'r tŷ'n cynnwys nifer o nodweddion trawiadol. Yn arbennig, y mae bargodiad y tŷ bach ar y talcen gogleddol yn beth go anarferol. Y mae gan y nant gyfagos sianel ddargyfeirio sy'n rhedeg oddi tano i weithredu fel system lifolchi. Yn y pen hwn o'r tŷ, o dan y gegin, ceir seler ac iddi lawr coblog (ynghyd â sianel lifolchi arall sy'n gysylltiedig â'r nant) y ceir mynediad iddi o risiau cerrig o dan y grisiau tro cam presennol o'r 18fed ganrif sydd yng nghefn y cyntedd croes. Y mae'r simneiau'n uchel a thenau ac wedi'u cornisio'n gain.

Penderfynodd y Cyngor fod Bron-y-Foel-Isaf yn eithriadol ac argymhellodd y dylid rhoi grant i baratoi arolwg manwl o'r eiddo ynghyd â manyleb a rhestr o'r gwaith atgyweirio wedi'i flaenoriaethu a oedd yn angenrheidiol i atgyfnerthu ac adfer ei adeiladwaith.



*Bron-y-Foel-Isaf, Dyffryn Ardudwy.*



Chwith: *Y morglawdd ym Mhlas Newydd, Ynys Môn (Trwy garedigrwydd Llyfrgell Ffotograffig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Nick Meers).*

**Y Morglawdd ym Mhlas Newydd, Ynys Môn**

Tirnod lleol o bwys yw Plas Newydd o eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Saif mewn lleoliad dramatig ar lan Afon Menai a gellir ei weld o nifer o fannau ar y tir mawr. Diogelir y safle gan adeiladwaith caerog y morglawdd, sef mur cynhaliol enfawr â bastiynau ynghanol yr adeiladwaith ac yn ei ddeupen. Y mae llethr syml â lawnt arni yn ymestyn o'r plasty hyd at droedffordd raean ar ffurff rhagfur sydd ar ben y morglawdd ac sydd wedi'i diogelu gan barapet castellog. Mae canonau llongau yn ymwthio dros y Fenai tuag at elyn dychmygol, fel pe baent yn ymwthio o ddeciau galiwn.

Mae grisiau cerrig mewn rhan o'r morglawdd sy'n estyn allan yn arwain i lawr o'r droedffordd i ddwy ystafell danddaearol fach sydd â golygfeydd allan i'r môr trwy fwâu Gothig. Byddai lleoedd tân yn cynnig cysur i'r sawl a arhosai i fynd ar fwrdd cwch o'r lanfa neu efallai dim ond i wylio cychod hwylio'n rasio.Ymhellach i'r de ar hyd y morglawdd, gellid clymu cwch yn y doc tanddaearol, cyn belled ag y byddai'r llanwau'n caniatáu. Mae grisiau serth yn arwain i lawr i siambr fawr â chromen frics sy'n agored i'r môr. Ceir rhagor o ystafelloedd â chromenni brics o bobtu i'r doc, â thyllau Gothig tebyg yn edrych dros y Fenai. Yn wreiddiol cysylltid yr ystafelloedd hyn â'r doc gan dyllau crwn, fel tyllau taflu.

Nid yw union ddyddiad ei adeiladu yn hysbys. Gellir gweld morglawdd yn llun Moses Griffiths o'r tŷ ym 1776 ac, o ganlyniad, mae modd ei briodoli i Syr Nicholas Bayley a ymestynnodd y tŷ yn y 1750au. Fodd bynnag, ailwampiwyd y tŷ tua diwedd y ddeunawfed ganrif gan James Wyatt a Joseph Potter. Yr oedd eu brîff yn cynnwys y gerddi, gan gynnwys tai allan newydd yn ogystal ag ailgynllunio'r parciau a'r gerddi, gyda'r gwaith yn parhau ymhell i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae cofnodion yn cyfeirio at y ffaith bod gwaith yn cael ei wneud ar y morglawdd. Mae'n debyg y gellir priodoli rhai newidiadau yn hwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r pedwerydd ardalydd a ymhyfrydai yn nheitl Is-lyngesydd Gogledd Cymru ac a glymai ei gwch hwylio yn y Fenai o flaen Plas Newydd. Yr oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cynllunio rhaglen dair blynedd o waith atgyweirio i'r morglawdd, gan gynnwys symud tyfiant o ran uchaf y wal a gwymon o'r rhan isaf, amnewid cerrig oedd wedi erydu neu oedd wedi'u colli o fôn y morglawdd ynghyd â gwaith ailbwyntio â morter calch hydrolig.

Yr oedd yn bleser gan y Cyngor argymell y dylid cefnogi Cam 2 o'r cynllun atgyweirio.

**Great House, Talycharn**

Un o'r tai Sioraidd godidocaf yng Ngorllewin Cymru yw Great House, Talycharn. Rhoddwyd cymorth grant yn y 1980au cynnar at waith atgyweirio i'r adeilad ond ni chwblhawyd y gwaith a bu'r tŷ'n wag am y deg mlynedd diwethaf. Bu'r dirywiad parhaus yn ei gyflwr yn destun pryder i'r Cyngor ers amser maith.

Ym 1998 gwerthwyd Great House i brynwr a oedd am atgyweirio ac adfer yr adeilad ac a wnaeth gais am gymorth grant. Ar yr adeg pan fu'r Cyngor yn ei ystyried yr oedd cyflwr yr adeilad yn eithriadol o wael ac yr oedd mewn perygl difrifol o gael ei golli. Yr oedd dirywiad yng nghafn canolog y to wedi gadael i ddŵr dreiddio i ganol y tŷ a hynny ar raddfa fawr, gan achosi difrod i'r ystafelloedd panelog hardd. Argymhellodd y Cyngor y dylid gweithredu ar unwaith i atal difrod anadferadwy i rai o'r manylion mewnol hanesyddol, ynghyd ag arolwg cydamserol i gofnodi rhai itemau a oedd ar fin dymchwel neu ddadfeilio. Argymhellodd y Cyngor y dylid rhoi cymorthdal i aildoi'r tŷ, atgyweirio pob un o'r ffenestri yn ogystal â ffrâm y prif ddrws ac adnewyddu'r capan dros ffenestr ôl y prif risiau a oedd wedi syrthio. Bydd y project llawn yn parhau am dair blynedd a rhagwelir y caiff ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2000. Mae'n dda gan y Cyngor nodi bod gwaith wedi dechrau arno ac mae'n edrych ymlaen at weld y gwaith hwnnw yn cael ei orffen. Mae'n falch ei fod wedi chwarae rhan i helpu achub yr adeilad pwysig hwn yn hanes Talacharn ac yn hanes Cymru gyfan.

**The Peach House, Y Foelas, Conwy**

Saif y Peach House o fewn gardd Plasty'r Foelas sydd â wal o'i hamgylch. Ailadeiladwyd y plasty ym 1957–1961 gan Clough Williams Ellis ac fe'i lleolir ynghanol tirlun eithriadol. Mae'r Peach House, â'i choed eirin gwlannog sydd yno o hyd, yn dyddio o'r 1890au ac mae'n cynnwys wal isel o bren a gwydr ar sylfaen o frics lle y mae cylchau haearn wedi'u cysylltu ag estyllen bren sydd wedi'i gosod yn agos at ben y wal gynnal â wyneb brics. Mae ffyn haearn yn gwau trwy'r cylchau hyn i gynnal llinell grom o gwareli gwydr a ddelir gan glipiau. Mae tyllau awyr yn agos at y pen ac yn y wal bren unionsyth yn darparu'r amgylchedd rheoledig ar gyfer tyfu eirin gwlannog.

Pan fu'r Cyngor yn ei ystyried nododd fod cyflwr yr adeilad anarferol, ar ôl can mlynedd, yn dirywio'n enbyd a bod angen rhoi sylw iddo ar frys pe bai'n mynd i gael ei achub. O gofio'r gwerth sydd i'r adeilad syml ond anarferol hwn oherwydd ei brinder a'r tirlun syfrdanol lle yr oedd wedi'i leoli, argymhellodd y Cyngor y dylid rhoi cymorth grant iddo. Cytunodd y dylid cofnodi'r adeilad mewn modd trylwyr, ac y dylid ei dynnu i lawr yn ofalus a'i ailadeiladu'n fanwl gywir a hynny gan ailddefnyddio elfennau metel presennol, gan atgynhyrchu elfennau pren, a chan ailadeiladu gwaith brics ac atgyweirio'r wal gynnal. Byddai'r coed eirin gwlannog eu hunain yn cael eu diogelu dros dro yn ystod y gwaith.

## Projectau a Gwblhawyd yn ystod y Flwyddyn

Wrth gwrs, yn aml ceir bod cryn dipyn o amser wedi mynd heibio rhwng ystyried cais am grant a'r adeg pan gaiff project ei gwblhau. Yn ystod y flwyddyn cafodd nifer o brojectau eu cwblhau – neu daethpwyd yn agos at eu cwblhau – a oedd wedi'u trafod mewn cyfarfodydd o'r Cyngor mewn blynyddoedd blaenorol. Yr oedd y Cyngor yn falch o gael nodi cynnydd yn y gwaith o adfer Plasty Aberglasney a'i erddi, Llangathen, Sir Gaerfyrddin, i'r pwynt lle agorwyd y gerddi i'r cyhoedd gan y cyn Brif Ysgrifennydd ym mis Gorffennaf 1999.

### PROJECTAU A GWBLHAWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN: ASTUDIAETHAU ACHOS

**Y Swyddfa Bost, Ynys Bŷr**



*Y swyddfa bost, Ynys Bŷr.*

Ym 1998 cychwynnodd adran tai Cyngor Sir Benfro ar gynllun atgyweirio grwpiau tai a gynhwysai sawl adeilad ar Ynys Bŷr, sef cartref mynachod yr Urdd Sistersaidd. Ardal gadwraeth yw'r ynys gyfan ac roedd y Cyngor am sicrhau bod y gwaith atgyweirio i'r tai yn gydnaws â'i chymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig, sef yn bennaf gwaith Celf-a-Chrefft da iawn o ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Gofynnwyd i Cadw ystyried cyfrannu at atgyweirio'r swyddfa bost ar Ynys Bŷr (sydd yn swyddfa bost ar y llawr gwaelod ac yn dŷ ar y llawr uchaf) i ychwanegu at grant tai'r awdurdod lleol. Gwnaed hyn fel y byddai modd defnyddio deunyddiau traddodiadol, megis teils clai a landeri haearn bwrw wrth wneud y gwaith atgyweirio, na fuasai'n bosibl ar sail yr arian a fu ar gael gan yr awdurdod. Ni chafodd y Cyngor unrhyw anhawster i argymhell y dylid helpu gyda chost y gwaith atgyweirio a hynny i safonau cadwraeth o dan grant ardal gadwraeth 1990.

Dde: *Eglwys Sant Caradog, Lawrenny.*

Mae'r gwaith wedi'i gwblhau bellach ac mae'n cynrychioli cryn wellhad i'r ardal gadwraeth. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at roi cyngor ar gynlluniau cydweithrediadol eraill gydag awdurdodau tai lleol i sicrhau, pan fydd yn bosibl, mewn ardaloedd hanesyddol pwysig, fod cymeriad yr ardaloedd hynny'n cael ei gadw ac nad yw'n cael ei beryglu trwy ddefnyddio deunyddiau mwy modern.

Hefyd yn ystod y flwyddyn yr oedd yn dda gan y Cyngor argymell y dylid cefnogi gwaith atgyweirio i fynachdy Ynys Bŷr, sef cartref un ar bymtheg o fynachod sydd ar yr ynys. Ynghyd ag arian gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, dylai hyn sicrhau y caiff yr adeilad eithriadol hwn, y mae arno angen dybryd ei atgyweirio, ei adfer i'w ogoniant blaenorol er budd yr ynys, ei thrigolion ac yn gyffredinol, oherwydd ei werth o ran twristiaeth, er budd yr economi leol.

**Eglwys Sant Caradog, Lawrenny, Sir Benfro**

Dechreuwyd atgyweirio'r eglwys eithriadol hon ynghanol yr 1980au ond ni fu'n bosibl mynd â'r gwaith yn ei flaen oherwydd diffyg arian yn y plwyf. Er bod tŵr ysblennydd yr eglwys wedi'i ailbwyntio, yr oedd gweddill yr adeilad mewn cyflwr gwael; yr oedd hyn yn cynnwys tu mewn yr eglwys a oedd yn dioddef o leithder a oedd wedi treiddio iddi i raddau difrifol iawn ac a oedd yn cael effaith andwyol ar yr henebion a gyfrannai at nodweddion eithriadol yr eglwys.

Edrychodd y Cyngor ar yr eglwys eto ym 1997 pan roddodd y posibilrywdd o gael arian gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ysgogiad newydd i'r plwyf barhau â'r gwaith atgyweirio. Heb betruso cynigiodd y Cyngor grant ar gyfer aildoi'r toeau i gyd â llechi, nwyddau dŵr glaw a system ddraenio, ailwydro'r ffenestri, rhoden fellt newydd a gwaith atgyweirio i'r paneli Sioraidd. Yn ogystal, o gofio'r graddau yr oedd y lleithder wedi treiddio a achoswyd yn ei dro gan gerrig llanw agored y tu allan, argymhellodd y Cyngor y dylid ailrendro'r eglwys fel rhan o'r project cyfan. Cydnabu'r Cyngor na fydd y gymuned leol hwyrach yn croesawu gwaith rendro bob amser ar y dechrau ond nododd y byddai hyn yn helpu i wneud yr adeilad yn ddiddos ac yr oedd hen ddigon o dystiolaeth ei bod wedi'i rendro o'r blaen. Yr oedd yr eglwys felly yn dychwelyd i'w chyflwr cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Cwblhawyd y gwaith atgyweirio ar yr eglwys yn ystod y flwyddyn ac yr oedd y Cyngor wrth ei fodd gyda'r canlyniad pan ymwelodd â hi. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at ragor o brojectau gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri a all arwain at gwblhau projectau mewn achosion pan na fydd y sawl sy'n gyfrifol am adeilad yn gallu dod o hyd i arian cytatebol i grant Cadw.



**Neuadd Benarth, Conwy**

Adeilad newydd–glasurol sydd wedi'i saernïo'n dda yw Neuadd Benarth sy'n dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Ychwanegir at ei harddwch gan deras wedi'i dirlunio sy'n edrych dros Afon Conwy. Mae tystiolaeth ddogfennol yn dangos i bob un o rannau cyfansoddol y tŷ gael ei adeiladu ar yr adeg pan adeiladwyd y tŷ'n wreiddiol yn y 1790au. Rhoddwyd gwedd hollol newydd i'r tŷ Sioraidd gwreiddiol yn syth cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, mwy na thebyg ar ôl i fasnachwr o Fanceinion o'r enw Tattersall brynu'r adeilad. Cyfunwyd y manylion gwreiddiol a'r rhai diweddarach mewn modd llyfn a llwyddiannus, y tu allan ac yn addurniadau clasurol y tu mewn â'u toreth o fotifau Rhufeinig ymerodrol.

Pan fu'r Cyngor yn ystyried yr adeilad ym 1997, er bod y tŷ mewn cyflwr da o ran ei adeiladwaith, yr oedd wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd ac ar y cyfan yr oedd wedi'i esgeuluso. Gadawyd i nodweddion pwysig megis crymdoeau plwm ddirywio a dymchwel ac yr oedd y gerddi wedi tyfu'n wyllt eithriadol, gan guddio'r olygfa o'r afon o deras y Neuadd.

Yr oedd yn bleser gan y Cyngor argymell y dylid rhoi grant ar gyfer gwaith atgyweirio fel y gallai'r adeilad fod o ddefnydd buddiol unwaith eto.

Enghraifft dda yw Neuadd Benarth mor hawdd a mor gyflym y gellir colli adeiladau da a'u lleoliadau ond hefyd mae'n rhoi cipolwg o'r hyn y gall adfer gofalus ac amserol ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ac mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at weld y cyfan wedi'i gwblhau.

## Mentrau/Materion Cyfredol

Bu'n dda gan y Cyngor gynghori ar fentrau newydd i hyrwyddo gwarchod adeiladau hanesyddol. Bu'n galondid iddo nodi bod Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi cymeradwyo arian ar gyfer projectau sy'n gysylltiedig â Menter Treftadaeth y Treflun yng Nghasnewydd, Treffynnon, Aberteifi, Bae Colwyn, Llanymddyfri a Llangadog, Dinbych, Llanrwst a Doc Penfro, ynghyd ag arian datblygu ar gyfer cynllun posibl yn Rhymni, Caerffili.

Mae Menter Treftadaeth y Treflun yn dyrannu arian i bartneriaethau ar gyfer projectau a fydd yn cyfrannu nid yn unig at gadwraeth trefi hanesyddol ond hefyd a fydd yn helpu i adfywio ardaloedd dirywiedig trwy adfer arwynebedd llawr gwag fel y gellir ei ddefnyddio unwaith eto. Bu'n dda gan y Cyngor gynghori mai Cadw ddylai fod yn un o'r partneriaid ariannu ymhob un o'r cynlluniau, ynghyd ag asiantaethau

megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ac adrannau cynllunio a thai awdurdodau lleol. Bydd cynllun THI yn rhyddhau adnoddau pwysig i ardaloedd hanesyddol dirwasgedig ac mae iddo'r potensial o sicrhau gwelliannau sylweddol i'r amgylchedd hanesyddol.

Yn ystod y flwyddyn bu'n bleser gan y Cyngor nodi i Ymddiriedolaeth yr Adeiladau Crefyddol gael ei sefydlu a fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am warchod y goreuon ymhlith y capeli segur a'r cyn-adeiladau crefyddol eraill nad ydynt yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru. Mae capeli'n arbennig o bwysig yn hanes Cymru a bu'r Cyngor yn awyddus i weld sefydliad yn cael ei greu a fydd yn sicrhau na chollir yr adeiladau pwysicaf o ran pensaernïaeth neu hanes i'r cenedlaethau i ddod eithr y cânt eu gwarchod neu y deuir o hyd i ddefnydd newydd iddynt. Penodwyd ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn ac mae Cadw wedi ymgymryd â'r dasg o ariannu canran o'r costau rhedeg a chyfrannu at gostau'r gwaith atgyweirio. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at gynghori ar yr adeiladau y gellid cael gafael arnynt ac y gallai'r Ymddiriedolaeth eu dal yn ei gofal.

O ran adeiladau a fu gynt yn eiddo i'r Eglwys yng Nghymru, bu'r Cyngor wrth ei fodd gyda'r cynnydd yn ystod y flwyddyn yn y gwaith atgyweirio i bedair cyn-eglwys sydd bellach yn rhan o Beirianwaith yr Eglwysi Segur a weithredir gan Gyfeillion Eglwysi Digyfaill gydag arian gan Cadw a Chorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru. Yr oedd y Cyngor o'r farn bod y pedair eglwys — Dewi Sant, Llangyfiw; y Santes Fair, Talyllyn; Beuno Sant, Penmorfa a Sant Ellyw, Llaneleu — yn eglwysi o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol eithriadol. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at gynghori ynghylch y set nesaf o eglwysi segur ar gyfer y peirianwaith.

Yn ystod y flwyddyn nododd y Cyngor unwaith eto ei bryder ynghylch y trefniadau lle y codir TAW ar gyfer gwaith atgyweirio i adeiladau ond nid ar gyfer gwelliannau na newidiadau. Mae'r Cyngor o'r farn bod y gyfundrefn hon yn gweithio'n gyfan gwbl er anfantais perchenogion adeiladau hanesyddol, lle y mae gwarchod yr adeiladwaith gwreiddiol yn ofalus yn hollbwysig. Mae gwaith atgyweirio o'r fath yn gofyn am fwy o ofal a sgiliau ac yn aml ddeunyddiau gwell a drutach na'r hyn sydd ei angen ar gyfer adeiladau modern. Hefyd mae'r gyfundrefn yn cael effaith andwyol ar gynlluniau llai ac, yn arbennig, waith atgyweirio i eglwysi bach, nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ac nad ydynt, felly, yn gallu ei hawlio'n ôl. Cefnogodd y Cyngor argymhelliad Cyd-bwyllgor Cymdeithasau Amwynderau Cenedlaethol y dylai fod graddfa unedig ac is o 5% TAW ar gyfer gwaith atgyweirio a newidiadau. Câi'r refeniw a gollid gan y Trysorlys ei wrthbwyso gan y manteision i gadwraeth; gellid buddsoddi'r arian a gâi ei ryddhau ar gyfer gwaith atgyweirio mewn projectau newydd, a fyddai eu hunain yn denu TAW o 5%, ac a fyddai'n helpu i leihau'r golled i'r Trysorlys. Mae'r Cyngor wedi datgan ei farn wrth y Cynulliad Cenedlaethol.

## Costau CAH

Darperir Ysgrifenyddiaeth y Cyngor sy'n rhoi cefnogaeth a chyngor proffesiynol gan Cadw. Bu costau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyflog y Cadeirydd | £ 5,258 |
| Costau Cyfarfodydd | £10,144 |
| Costau amcan Cadw ar gyfer Cynnal y Cyngor | £15,750 |
| **Cyfanswm** | **£31,152** |

## Cydnabyddiaethau

Bu'r Cyngor yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniodd gan ei Ysgrifenyddiaeth a'i Aseswyr o fewn Cadw, ac i'r cyrff ac unigolion eraill a ddarparodd sylwadau arbenigol a chyngor yn ystod y flwyddyn.

*Eglwys Sant Caradog, Lawrenny.*



ATODIAD A

# Crynodeb Grantiau

1. Grantiau ar gyfer Adeiladau Seciwlar Eithriadol

| Ceisiadau a dderbyniwyd | 1953–99 | 1999–00 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau newydd | 3,339 | 92 | 3,431 |
| Ceisiadau am godiadau | 466 | 13 | 479 |
| **Cyfanswm** | **3,805** | **105** | **3,910** |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 1,552 | 37[(a)] | 1,589 |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd[(b)] | £29,163,369 | £1,280,443[(c)] | £30,443,812 |
| Gwariant | £23,458,897 | £840,119 | £24,299,016 |

(a) Hefyd, cymeradwywyd 13 cais am godiad yn ystod y flwyddyn.

(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau dileëdig, a ddaeth i gyfanswm o £335,841 ym 1999–2000.

(c) Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, a ddaeth i gyfanswm o £89,975 ym 1999–2000.

2. Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol a Ddefnyddir i Addoli

| Ceisiadau a dderbyniwyd | 1953–99 | 1999–00 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau newydd | 1,119 | 42 | 1,161 |
| Ceisiadau am godiadau | 238 | 18 | 256 |
| **Cyfanswm** | **1,357** | **60** | **1,417** |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 636 | 16[(a)] | 652 |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd[(b)] | £10,393,277 | £506,398[(c)] | £10,899,675 |
| Gwariant | £7,955,931 | £520,943 | £8,476,874 |

(a) Hefyd, cymeradwywyd 19 cais am godiad yn ystod y flwyddyn.

(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau dileëdig, a ddaeth i gyfanswm o £71,518 ym 1999–2000.

(c) Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, a ddaeth i gyfanswm o £103,986 ym 1999–2000.

## ATODIAD A

3. Grantiau ar gyfer Cynlluniau mewn Ardaloedd Cadwraeth

| **Ceisiadau a dderbyniwyd** | **1953–99** | **1999–00** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau newydd | 1,848 | 55 | 1,903 |
| Ceisiadau am godiadau | 244 | 13 | 257 |
| **Cyfanswm** | **2,092** | **68** | **2,160** |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 1,191 | 33(a) | 1,224 |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd[b] | £10,407,489 | £4449,349[c] | £10,856,838 |
| Gwariant | £10,346,073 | £679,371 | £11,025,444 |

(a) Hefyd, cymeradwywyd 13 cais am godiad yn ystod y flwyddyn.

(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau dileëdig, a ddaeth i gyfanswm o £41,860 ym 1999–2000.

(c) Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, a ddaeth i gyfanswm o £73,239 ym 1999–2000.

(d) Mae hyn yn cynnwys gwariant mewn perthynas â Chynlluniau Trefi Hanesyddol.

4. Grantiau ar gyfer Eglwysi Cadeiriol

Yn ogystal â'r 15 cais a dderbyniwyd rhwng Ebrill 1994 a Mawrth 1999, derbyniwyd 4 cais ychwanegol ym 1999–2000, sef:

| | Grant |
|---|---|
| Eglwys Gadeiriol Llanelwy | £20,550 |
| Eglwys Gadeiriol Tyddewi (2) | £33,270 |
| Eglwys Gadeiriol Llandaf | £59,197 |

CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

ATODIAD B

## Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol

**Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953, Adran 4.**
Ceir isod restr o adeiladau yr argymhellwyd y dylent dderbyn grant yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 1999 hyd at 31 Mawrth 2000. Nid yw'n angenrheidiol bod y grant wedi'i dalu, yn rhannol neu yn llawn ymhob achos.

Mae pob cynnig grant mewn perthynas ag adeilad eithriadol yn ddarostyngedig i amod sy'n mynnu mynediad i'r cyhoedd:

**Côd Mynediad 1**
Mae'r adeilad ar agor i'r cyhoedd am o leiaf 30 diwrnod y flwyddyn.

**Côd Mynediad 2**
Mae modd archwilio'r adeilad trwy drefniant â'r perchennog.

**Côd Mynediad 3**
Mae modd i'r cyhoedd weld tu mewn yr adeilad, a hynny oherwydd y defnydd a wneir ohono.

**Côd Mynediad 4**
Tu allan yr adeilad yw'r nodwedd bwysicaf a gellir ei weld o'r stryd.

**Côd Mynediad 5**
Arddangosir trefniadau ar gyfer ymweld â'r adeilad y tu allan i'r adeilad.

## Ynys Môn

**Capel Moreia, Ffordd Glanhwfa**
Codwyd y capel fel cofeb i John Elias, pregethwr a Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Capel trefol godidog ydyw, yn uchelgeisiol o ran ei raddfa ac o ran manylder ei eirfa gyfoethog sy'n perthyn i'r cyfnod newydd-glasurol ac i gyfnod y Dadeni. Grant am £17,500 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r to a'r ffenestri, ailrendro a phaentio'r tu allan.
*Mynediad 3/5*

ATODIAD B

**Plas Newydd (Morglawdd/glanfa), Llanfairpwll**
Morglawdd yw hwn ar hyd Afon Menai sy'n ffurfio nodwedd addurniadol o flaen Plas Newydd, gyda glanfa yn y pen deheuol. Grant am £20,000 ar gyfer sefydlogi ac ailbwyntio'r morglawdd.
*Mynediad 4*

**3 Teras Fictoria, Biwmares**
**14 Teras Fictoria Biwmares**
Teras o dai tri llawr a'r rheiny ar raddfa fawr ac wedi'u cynllunio'n fawreddog. Fe'u hadeiladwyd ym 1830–35 gan Hansom a Welch. Grant am £2,400 ar gyfer Rhif 3 a £1,200 ar gyfer Rhif 14 Teras Fictoria, y ddau grant ar gyfer ailwampio'r talwyneb allanol.
*Mynediad 4*

## Caerffili

**Eglwys Tudur Sant, Mynydd Islwyn**
Adeiladwyd eglwys Tudur Sant yn y bedwaredd ganrif ar ddeg/pymthegfed ganrif ac fe'i hadnewyddwyd ym 1820. Cynigir grant ar gyfer gwaith atgyweirio y tu allan gan gynnwys gwaith i'r gwaith cerrig a'r naddiadau cerrig.
*Mynediad 2/3*

## Caerdydd

**Coedarhydyglyn (Cam 3), Sain Nicolas**
Plasty newydd-glasurol, a adeiladwyd yn wreiddiol ym 1820 ac a leolir mewn parc godidog sydd wedi'i dirlunio. Mae'n bosibl mai gwaith y pensaer Edward Haycock yr hynaf ydyw. Grant am £20,000 ar gyfer trydydd cam o waith i atgyweirio'r porth colofnog, gwaith atgyweirio i'r tu allan ac ailaddurno.
*Mynediad 2*

## Sir Gaerfyrddin

**Eglwys Annibynnol Heol Awst, Heol Awst, Caerfyrddin**
Ailadeiladwyd y capel ym 1826, a thu mewn iddo mae oriel sydd â phaneli Gothig ar y balwstrad ac sydd wedi'i chynnal gan golofnau Ïonig. Grant am £10,000 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r rendrad, y ffenestri a'r gwaith coed.
*Mynediad 3/5*

CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

## ATODIAD B

**Great House, King Street, Talycharn**
Enghraifft ardderchog o dŷ Sioraidd Cynnar, gyda ffrâm drws ganolog dda o ddiwedd y cyfnod Baróc. Grant am £34,400 ar gyfer gwaith aildoi, atgyweirio pob un o'r ffenestri a ffrâm y prif ddrws, adnewydddu'r capan dros ffenestr ôl y prif risiau sydd wedi disgyn.
*Mynediad 2*

**Eglwys Teilo Sant, Llanddowror**
Saif yr eglwys ym mhen gorllewinol y pentref y tu mewn i fynwent â wal gerrig o'i hamgylch. Er iddi gael ei hailadeiladu lawer gwaith mae o'r pwys hanesyddol mwyaf oherwydd i'r Parch. Gruffudd Jones, sylfaenydd yr ysgolion cylchynol enwog, fod yn beriglor yma. Mae Jones wedi'i gladdu yn y gangell. Mae'r Cyngor wedi argymell y dylid rhoi grant yn ddarostyngedig i gynllun atgyweirio addas.
*Mynediad 3/5*

## Sir Geredigion

**Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan**
Adeilad Gothig Tuduraidd syml yw hwn, a adeiladwyd ym 1822–27 gan C R Cockerell y pensaer newydd-glasurol dihafal. Hwn oedd y coleg prifysgol cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru a Lloegr ers Rhydychen a Chaergrawnt; fe'i sefydlwyd gan yr Esgob Burgess o Dyddewi a J S Harford i addysgu darpar offeiriaid Anglicanaidd na allai fforddio'r prifysgolion yn Lloegr. Grant am £7,050 ar gyfer aildoi rhannau o adain ogleddol ac adain ddwyreiniol adeilad Dewi Sant.
*Mynediad 2*

**Tŷ Trawscoed, Aberystwyth**
Buwyd wrthi'n datblygu'r tŷ, a fu'n blasty i deulu'r Vaughaniaid, er yr ail ganrif ar bymtheg. Plasty o bwys hanesyddol ydyw a chanddo o hyd lyfrgell sydd wedi'i chynllunio'n anarferol o gain. Grant am £16,100 ar gyfer gwarchod nenfwd a waliau'r llyfrgell, waliau a gorffeniadau i'r nenfwd yn y parlwr ac atgyweirio priflythrennau'r sgroliau Ïonaidd yng nghyntedd y fynedfa.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

## Conwy

**Eglwys Sant Rhychwyn, Llanrhychwyn**
Eglwys ganoloesol bwysig sydd mewn cyflwr da a chanddi nodweddion da o hyd y tu mewn a'r tu allan. A hithau wedi'i lleoli ar safle crefyddol cynnar, dechreuodd yr eglwys ei hoes fel capel hirsgwar un gell, o'r ddeuddegfed ganrif yn ôl pob tebyg. Grant am £27,500 ar gyfer gwaith draenio, aildoi, ailbwyntio, adnewyddu lloriau a gwydr.
*Mynediad 3/5*

**Plas Muriau, Betws-y-Coed**
Saif y plasty bach hwn o ganol oes Fictoria mewn gerddi cyfoes. Fe'i adeiladwyd yn y dull Tuduraidd-Gothig ac mae mewn cyflwr da. Y diddordeb pennaf y tu mewn i'r plasty yw ei addurnwaith paentiedig o waith Pietro Romoli sy'n goroesi yn y prif barlwr. Mae'r math hwn o ddarlun nenfwd yn fwy nodweddiadol o blastai mawr ac felly peth anarferol yw dod o hyd i un mewn tŷ o'r maint a'r math hwn. Grant am £1,600 ar gyfer ailrendro darn uchaf y brif simnai.
*Mynediad 2*

**Eglwys y Forwyn Fair a'r Holl Saint, Conwy**
Eglwys hynafol, sy'n ymgorffori rhannau o abaty Sistersaidd a sefydlwyd ym 1172 ond sydd wedi'i newid a'i hadnewyddu cryn dipyn. Tu mewn mae rhai arddurniadau gwych o'r bymthegfed ganrif wedi goroesi gan gynnwys croglen a chanddi ganopi sydd wedi'i cherfio'n foethus ynghyd â llawer o henebion. Grant am £17,500 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r llechi, nwyddau dŵr glaw, gwaith gwydro ac amnewid gargoel sydd wedi torri.
*Mynediad 3/5*

**Eglwys Trillo Sant, Llandrillo yn Rhos**
Adeiladwyd yr eglwys wreiddiol yn y drydedd ganrif ar ddeg ac fe'i hestynnwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg i greu eglwys â dau gorff. Mae gan y tu mewn golofnau wythonglog sy'n cynnal y to craffrwymedig bwaog. Grant am £17,500 ar gyfer gwaith atgyweirio i ddrychiadau gorllewinol, deheuol a dwyreiniol corff yr eglwys a phorth y de yn ei gyfanrwydd.
*Mynediad 3/5*

**Peach House, Y Foelas, Pentrefoelas**
Tŷ gwydr o bwysigrwydd hanesyddol ac esthetaidd eithriadol yw'r Peach House yn y Foelas. Adeiladwyd y tŷ gwydr yn erbyn pen dwyreiniol wal uchaf yr ardd lysiau. Mae'n un o'r tai gwydr pwysicaf, mwyaf anarferol ac sydd wedi'i chadw orau yng Nghymru, ac mae'n dyddio o'r 1890au. Cynigir grant mewn egwyddor yn ddarostyngedig i gynllun addas ar gyfer cofnodi, dymchwel ac ailadeiladu.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

## Sir Ddinbych

**Plas Bennett, Llandyrnog**
Adeiladwyd y tŷ ym 1749 ac mae wedi cadw llawer o'i fanylder gwreiddiol. Grant am £10,000 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r to a nwyddau dŵr glaw.
*Mynediad 2*

**Eglwys Sant Elidan, Llanelidan, ger Rhuthun**
Eglwys hynafol iawn yw hon, ond un a newidiwyd ac a ailwampiwyd wedi hynny. Ceir olion gwydr o ddiwedd yr Oesoedd Canol ac mae'r bedyddfaen yn dyddio o'r bymthegfed ganrif. Grant am £10,000 ar gyfer symud y gwaith paent sydd wedi'i ddifrodi ac ar gyfer gwaith atgyweirio i'r gwaith plastro.
*Mynediad 3/5*

**Rose Cottage, 15 Stryd Rhos, Rhuthun**
Tŷ neuadd nenfforch â ffrâm goed yw Rose Cottage o ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Enghraifft gymharol gyflawn ydyw o neuadd un gilfach lai o statws is. Grant am £23,200 ar gyfer cynllun atgyweirio ac adnewyddu'r tu mewn a'r tu allan i'r tŷ.
*Mynediad 2*

## Sir y Fflint

**Neuadd Kelsterton, Ffordd Kelsterton**
Adeiladwyd Neuadd Kelsterton rhwng 1800 a 1810 ond fe'i hailwampiwyd yn sylweddol wedi hynny tua 1884. Ceir dwy ystafell â phaneli derw y tu ôl i dalwyneb y de, ac mae addurniadau a mentyll simneiau sydd wedi'u cerfio'n gain mewn steil Duduraidd gywrain sy'n ymgorffori motifau Gwyddelig i'w gweld ynddynt. Mae'r cyfan yn dyddio o 1884, sef yr adeg pan ailwampiwyd y tŷ. Grant am £80,000 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r to a'r waliau allanol a chorn y simnai, ynghyd ag atgyweirio ac amnewid ffenestri a drysau diffygiol, amnewid nwyddau dŵr glaw ac adnewyddu ffasgia ac ymylon bondo sy'n ddiffygiol neu sydd wedi pydru.
*Mynediad 2*

**Yr Ysgubor yn Golden Grove, Llanasa**
Yn ôl pob tebyg mae'r ysgubor yn dyddio o'r un cyfnod â'r plasty, sef yn gynnar yn yr ail ganrif ar bymtheg. Saif ynghanol coed o dan adain orllewinol y tŷ ac mae'n rhaid mai hi oedd ei brif dŷ allan cyn i'r fferm a'r buarth diweddarach gael eu datblygu. Darparai le ar gyfer cerbyty a stablau a cheir olion cwt clychau yn nhalcen y de. Grant am £26,000 ar gyfer ailosod llechi a gwaith atgyweirio i'r to a'r cwt clychau a gwaith ailbwyntio i'r gwaith cerrig.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

**Neuadd Trimley, Llanfynydd**
Dechreuwyd adeiladu Neuadd Trimley ar ddiwedd y 1630au. Tŷ uchelwyr deulawr o gyfnod y Dadeni ydyw ac iddo gynllun sgwâr. Mae ganddo simnai ganolog enfawr ac eithriadol o anarferol sy'n creu'r to talcennog nodweddiadol. Grant am £10,400 ar gyfer gwaith atgyweirio i do adeilad a fu am amser hir yn un o'r adeiladau pwysicaf mewn perygl yng Nghymru.
*Mynediad 2*

## Gwynedd

**Bron-y-Foel Isaf, Dyffryn Ardudwy**
Adeiladwyd y tŷ tua 1580 a saif mewn celli ar lan nant yng nghefn gwlad neilltuol o wyllt a diffaith ryw filltir neu'i gilydd o Ddyffryn Ardudwy. Tŷ uchelwyr o faint sylweddol ydyw sy'n perthyn i'r cyfnod ôl-ganoloesol ac sydd wedi cadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol. Grant am £10,4000 ar gyfer gwaith atgyweirio i atgyfnerthu ac adnewyddu ei adeiladwaith.
*Mynediad 2*

**Castell Bryn Bras, Llanrug, Caernarfon**
Plasty a adeiladwyd yn null darluniadol castell canoloesol, sef dull sy'n perthyn i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni wnaed penderfyniad ynglŷn â faint o grant a gynigir eto ond fe'i rhoddir ar gyfer gwaith atgyweirio i'r to a'r gwaith cerrig y tu allan ac ar gyfer gwaith mewnol ar oriel y gogledd, yn ogystal â gwaith i dŵr y gogledd.
*Mynediad 2*

**Prif Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Cymru Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor**
Adeilad rhestredig Gradd 1 urddasol o waith Henry T Hare o Lundain a adeiladwyd ym 1907–11. Fe'i ystyrir yn un o adeiladau cyhoeddus pwysicaf y cyfnod ym Mhrydain. Grant am £15,500 tuag at atgyweirio nodweddion yr effeithiwyd arnynt o ganlyniad i ddŵr yn ymdreiddio i'r adeilad.
*Mynediad 2*

**Capel Isaf, Llithfaen**
Cynlluniwyd y capel gan Owen Morris Roberts o Borthmadog, pensaer capeli profiadol ac adnabyddus yng ngogledd Cymru a oedd yn hunanaddysgedig. Adeiladwyd y capel ym 1905 ac fe'i lleolir yn agos at ganol y pentref. Mae'r tu mewn iddo, sy'n debyg i theatr, heb ei newid o gwbl ac mae mewn cyflwr da. Grant am £5,000 ar gyfer atgyweirio/amnewid fframiau llithro ffenestri sy'n ddiffygiol, adnewyddu nwyddau dŵr glaw ac atgyweirio darnau o'r gwaith plastro y tu mewn.
*Mynediad 1/3*

## ATODIAD B

**Tŷ Parc, Croesor, Penrhyndeudraeth**
Adeilad Jacobinaidd rhestredig Gradd II* yw hwn a saif mewn lleoliad trawiadol ar safle uchel uwchben Afon Maesgwm. Grant am £1,600 tuag at ailrendro wal un o'r talcenni.
*Mynediad 2*

**Castell Penrhyn, Bangor (Cam 14)**
Erbyn hyn creadigaeth Thomas Hooper yw Penrhyn, castell newydd-Normanaidd enfawr a gynlluniwyd ganddo rhwng 1827 a 1837. Mae'n ymgorffori rhannau o blasty cynharach a chredir mai hwn oedd cartref teulu brenhinol y Tuduriaid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Grant am £86,288 ar gyfer gwaith atgyweirio i Dŵr y Gorthwr.
*Mynediad 1*

**Eglwys Sant Engan, Llanengan, Pwllheli**
Eglwys gyflawn o'r Oesoedd Canol yw hon a chanddi groglenni ysblennydd sy'n dyddio o ddiwedd yr Oesoedd Canol. Saif yn y pentref mewn mynwent fawr ychydig i'r gorllewin o Langain. Grant am £8,250 ar gyfer gwaith atgyweirio i'r gwaith cerrig ac ailbwyntio y tu allan, ynghyd â gosod llechi newydd ar do porth y de.
*Mynediad 1/3*

**Eglwys Santes Fair (bwa'r fynwent/gatiau), Stryd yr Eglwys, Tremadog**
Mae'r porth yn Eglwys Santes Fair yn cynnwys adeiladwaith o garreg Coade wedi'i gynllunio a'i addurno mewn modd cywrain, a chanddo ddau biler amlochrog sy'n cynnal bwa Gothig. Cynigiwyd grant mewn egwyddor yn ddarostyngedig i gynllun addas i atgyweirio'r tu allan.
*Mynediad 1*

**Adeiladau Mwynglawdd Copr Sygyn, Beddgelert**
Lleolir y rhes hon o ystafelloedd cysgu a ddefnyddid gynt gan weithwyr copr ryw filltir o bentref Beddgelert. Mae'n gorwedd ynghudd yng ngwaelod llechwedd ynghanol golygfeydd mynyddig Eryri. Mae adeilad o'r fath, er ei fod yn un di-nod, bellach yn brin iawn. Cynigiwyd grant mewn egwyddor yn ddarostyngedig i gynllun addas i atgyweirio un adeilad fel rhan o gyfadeilad Mwynglawdd Copr Sygyn.
*Mynediad 2*

**Tŷ'r Porth, Cefnamlwch Tudweiliog, Pwllheli**
Adeiladwyd tŷ'r porth ym 1607 ac ar un adeg bu'n wynebu hen dŷ Cefnamlwch, a ddymchwelwyd amser maith yn ôl. O flaen tŷ'r porth erbyn hyn ceir lle parcio graeanog sy'n gyfochrog â'r tŷ presennol ac i'r gogledd ohono. Grant am £2,800 ar gyfer sefydlogi ac ailbwyntio'r adeilad yn rhannol.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

## Sir Fynwy

**Allt-y-Bela, Llangwm**
Ffermdy ffrâm nenfforch Gradd II* o'r Oesoedd Canol lle y bu Roger Edwards yn byw, sef sylfaenydd Ysgol Ramadeg Brynbuga. Edwards oedd yn gyfrifol am adeiladu'r bloc uchel yn null y Dadeni ar ochr orllewinol yr adeilad ym 1599. Grant am £263,000 ar gyfer gwaith i adnewyddu'r adeiladwaith a'r adeilad amlen allanol a'r tŵr yn null y Dadeni, yn ogystal â thuag at y gost o atgyweirio ac amnewid nodweddion mewnol.
*Mynediad 2*

**Our Lady and St Michael's Roman Catholic Church, Y Fenni**
Adeiladwyd yr eglwys ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg o gynllun J B Bucknell. Mae'n cynnwys un o'r casgliadau gorau ym Mhrydain o urddwisgoedd o'r cyfnod cyn y Diwygiad. Grant am £14,762 ar gyfer aildoi eil y de ynghyd â gwaith atgyweirio ac ailwydro ffenestri'r gorllewin a ffenestri'r de.
*Mynediad 1/3*

**Eglwys Sant Bartlemi, Llanofer**
Eglwys blwyf fach a saif yn agos at dro ar afon Wysg ryw filltir o bentref Llanofer. Mae ganddi dŵr gorllewinol ashlar godidog. Grant am £6,000 ar gyfer ailadeiladu darn o wal y fynwent gyfagos i dalcen y dwyrain.
*Mynediad 1/3*

**Eglwys Priordy'r Santes Fair, Y Fenni**
Eglwys blwyf Radd B yw hon, sy'n Addurnedig at ei gilydd ac yn Unionsyth. Yng Nghapel Herbert ceir beddau ardderchog sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg i'r ail ganrif ar bymtheg. Grant am £37,500 ar gyfer ailosod llawr Capel Lewis yn dilyn astudiaeth archaeolegol, atgyweirio'r ffenestri ac adnewyddu'r capel.
*Mynediad 1/3*

**Tŷ Hwnt y Bwlch, Cwm-iou**
Mae'r adeilad yn dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Ffermdy sylweddol wedi'i adeiladu o gerrig ydyw a saif mewn lleoliad trawiadol ar dir serth i fyny'r allt o eglwys Cwm-iou ar lechweddi dwyreiniol Cwm Euas. Grant am £80,724 ar gyfer gwaith i gynnal yr adeilad, gwaith aildoi ac ailadeiladu'r simneiau.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

## Castell Nedd Port Talbot

**Cofebau Mansel, Eglwys Ababty Margam, Margam**
Ceir casgliad o bedair cist bedd dda â delwau a phum cofeb furol yn yr eglwys hon sy'n rhestredig Gradd A. Grant am £5,706 tuag at warchod ac atgyweirio'r beddau a'r murluniau.
*Mynediad 2*

## Sir Benfro

**Mynachdy Ynys Bŷr, Ynys Bŷr**
Bu presenoldeb mynachaidd ar yr ynys ers y chweched ganrif o leiaf. Gwaith hynod gan John Coates Carter yw'r abaty presennol a adeiladwyd rhwng 1910 a 1913. Grant am £172,000 ar gyfer cam pwysig o waith i atgyweirio'r toeau, nwyddau dŵr glaw, pennau simneiau a rhai ffenestri.
*Mynediad 3/5*

**Tŷ Creseli, Cilgeti**
Saif y tŷ ynghanol ei erddi ei hun. Fe'i adeiladwyd tua 1770 ar gyfer John Bartlett Allen ac ychwanegwyd ei adenydd yn ddiweddarach. Fe'i ystyrir yn blasty sydd mewn cyflwr da ac iddo hanes teuluol diddorol. Grant am £66,800 ar gyfer gwaith i doeau prif ran y tŷ ynghyd â'r toeau sydd ar adain y gogledd ac adain y de, yn ogystal â gwaith i'r ffenestri bae.
*Mynediad 2*

**Coleg Llys Ddu, Felindre Farchog**
Llys maenoraidd prin yw hwn o tua 1600. Ceir yno ystafell y llys sy'n uchel a serth â'i thalcen uchel dros y ffenestri ailfodeledig yn y dull Tuduraidd ynghyd â rhes ddiweddarach o fythynnod is sydd â dau gorn simnai yn y deupen. Grant am £21,200 ar gyfer gwaith pwysig i'r to.
*Mynediad 2*

**Porth y Tŵr, The Pebbles, Tyddewi**
Saif y porth dau dŵr hynafol hwn sy'n arwain at glos yr eglwys gadeiriol wrth droed y Pebbles yn Nhyddewi. Adfail ydoedd hyd at 1929, pan benderfynwyd aildoi tŵr mawr wythochrog y Gogledd fel tŵr clychau i'r eglwys gadeiriol isod. Grant am £87,000 ar gyfer adnewyddu'r muriau canllaw, atgyweirio peth o'r gwaith cerrig a gwaith aildoi.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

## Powys

**Tŷ Abercamlais, Aberhonddu**
Adeiladwyd y tŷ gwreiddiol tua 1600 ond fe'i ailadeiladwyd i raddau helaeth yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif gyda phaneli, grisiau a gwaith plastro godidog. Grant am £18,000 ar gyfer gwaith i'r drychiadau gogleddol a gorllewinol y tu allan.
*Mynediad 2*

**1 Plas Buckingham, Aberhonddu**
Ffurfiai'r adeilad hwn ran o'r plasty gwych hwnnw o ddiwedd yr Oesoedd Canol a fu'n eiddo i deulu'r Awbreys. Rhif 1 oedd y bloc heulol a cheir yno o hyd ffenestr yn y cefn sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. Rywbryd yn ystod y ddeunawfed ganrif adeiladwyd estyniad wrth ochr yr adeilad i ddarparu lle ar gyfer grisiau mawreddog. Grant am £48,000 ar gyfer gwaith i ddiogelu'r grisiau mawreddog yn ogystal â gwaith i'r to, y waliau, y ffenestri a'r drysau y tu allan.
*Mynediad 2*

**Coleg yr Iesu, Aberhonddu**
Adeilad rhestredig Gradd II* yw hwn a adnewyddwyd ac a ailadeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf gan John Prichard. Grant am £3,000 ar gyfer ailosod llechi ar do cegin chwechonglog Prichard a hefyd y to dros dwll grisiau'r llyfrgell.
*Mynediad 2*

**Coleg Trefeca, Trefeca, Talgarth**
**Aberhonddu (Cam II)**
Cartref Howell Harris oedd yr adeilad gwreiddiol ac fe'i sefydlwyd fel model o fywyd a chydweithredu Cristnogol. Mae'r adeilad yn enwog am ei addasiadau cyfnod Gothig yr ymgymerwyd â hwy rhwng 1752 hyd at 1759. Canolfan Hyfforddi Lleyg Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw'r coleg. Grant am £81,000 tuag at waith aildoi ac adnewyddu.
*Mynediad 2*

**Pafiliwn ym Mharc Gwledig Craig-y-Nos, Pen-y-Cae**
Adeiladwyd y pafiliwn ar gyfer Dame Adelina Patti, a hynny yn ôl pob tebyg rywbryd rhwng 1905 a 1919 (adeilad gwahanol i'r Patti Pavilion sydd yn awr ym Mharc Fictoria, Abertawe). Mae'r adeilad hwn yn llawer llai ac fe'i lleolir ar lawr y cwm yn agos at y llethr serth o dan ffug Dŷ Tŵr Albanaidd T H Wyatt sy'n perthyn i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Grant am £2,700 ar gyfer gwaith i'r to.
*Mynediad 1*

## ATODIAD B

**4 Stryd Cantre Selyf, Aberhonddu**
Enghraifft odidog o dŷ Sioraidd tri llawr o frics coch o ganol y ddeunawfed ganrif. Grant am £4,800 tuag at waith i glymu'r adain dde yn ôl i brif ran yr adeilad.
*Mynediad 2*

**Neuadd Mellington, Yr Ystog**
Cynlluniwyd ac adeiladwyd Neuadd Mellington gan Evan Powell yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i lleolir mewn parcdir tirlun ac mae'n blasty o gymeriad Gothig hynod o gyson ac mewn cyflwr hynod o dda. Ni wnaed penderfyniad ynglŷn â lefel y grant a roddir eto ond bydd ar gyfer gwaith i'r to a'r simneiau.
*Mynediad 1/3*

**Castell Powys (Orendy ac Adardy)**
**Y Trallwng (Cam 4)**
Dinistriwyd cadarnle gwreiddiol tywysog Powys ym 1275, ond fe'i ailadeiladwyd wedi hynny â thywodfaen o liw coch trawiadol. Cysylltir y gwaith ailwampio mawr a wnaed arno o 1667 ymlaen â William Winde. Grant am £20,000 ar gyfer gwaith atgyweirio i derasau gardd y Castell.
*Mynediad 1*

**Eglwys Plwyf St Nicholas, Church Bank, Sir Drefaldwyn**
Saif yr eglwys ar dir sy'n codi i'r dwyrain o sgwâr marchnad y dref. Mae ganddi gorff a changell hir sy'n perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg. Ceir yno o hyd lawer o ffenestri Seisnig Cynnar ynghyd â nifer annisgwyl o ddrysau cyfoes. Grant am £8,000 i ailbwyntio rhan isaf tŵr yr eglwys a thalcen gorllewinol corff yr eglwys.
*Mynediad 2*

**Stablau Parc Vaynor, Aberriw**
Mae'r bloc o stablau ym Mharc Vaynor yn adeilad rhestredig Gradd II* yn ei rinwedd ei hun. Gwaith Thomas Penson ydyw i raddau helaeth ond gydag ychwanegiadau diweddarach gan Pountney Smith. Stabl ardderchog ydyw o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf sy'n ymgorffori adeiladau cynharach, ac mae wedi'i haddurno'n foethus yn null y Dadeni Dysg. Grant am £32,000 i ailosod y fynedfa bren o fewn bwa canolog y bloc, adnewyddu un o ddrysau'r cerbyty, ailosod llechi ar hanner gogleddol y to ac ailwydro'r ystafell wydr ar ochr ogleddol cwrt blaen y fynedfa, ynghyd â gwaith atgyweirio i hanner de-ddwyreiniol yr adeilad gan gynnwys ailosod llechi ar y to, gwaith cerrig a gwydro'r ffenestri.
*Mynediad 2*

ATODIAD B

## Rhondda Cynon Taff

**Gorsaf Reilffordd Pontypridd, Pontypridd**
Dechreuodd Rheilffordd Dyffryn Taf ym Mhontypridd ym 1837. Ailadeiladwyd yr orsaf ym 1907 o ganlyniad i gynnydd yn nifer y teithwyr. Yn ei hanterth bu'n delio ag 11,000 o deithwyr bob dydd ac roedd ganddi saith platfform; dywedwyd mai'r prif blatfform, yr ynys, oedd yr un hwyaf yn y byd pan gafodd ei adeiladu. Mae grant wedi'i gynnig mewn egwyddor tuag at gost rhoi gwydrau patent yn lle'r cladin presennol yn ogystal ag adnewyddu'r nodweddion gwreiddiol o waith metel.
*Mynediad 1/3*

**Tŷ Llanharan (Cam 3), Llanharan**
Plasty â gerddi o ganol/diwedd y ddeunawfed ganrif. Grant am £4,400 i dynnu hen waith rendro allan ac ailrendro wal allanol grom y brif neuadd risiau yng nghefn y tŷ a'r gwaith atgyweirio sy'n gysylltiedig i'r to a nwyddau dŵr glaw.
*Mynediad 2*

**Eglwys Sant Elfan, Aberdâr**
Lleolir yr eglwys mewn safle amlwg ynghanol y dref. Fe'i hadeiladwyd ym 1851 yn ôl cynlluniau gan Andrew Mosely ac fe'i hatgyweiriwyd ar raddfa fawr ym 1869 a 1884. Ychwanegwyd eil y de ym 1910. Grant am £39,500 tuag at ailosod llechi ar yr eiliau a phorth y gogledd a hynny'n llawn; amnewid landeri'r gafn ddeheuol; gwaith atgyweirio i'r ffenestri a gwaith arall y tu allan i leihau maint y dŵr sy'n ymdreiddio i'r eglwys.
*Mynediad 3/5*

## Tor-faen

**Amgueddfa Lofaol Pwll Mawr, Blaenafon**
Mae safle Pwll Mawr o ddiddordeb eithriadol oherwydd ei brinder fel yr unig bwll glo Cymreig hanesyddol sydd ar ôl sy'n cynnig mynediad dwfn i'r cyhoedd. Grant am £56,000 i atgyweirio ac adnewyddu tŷ'r wyntyll, adeilad pen y pwll a'r felin lif.
*Mynediad 1/2/3*

## ATODIAD B

**Eglwys Mihangel Sant, Llantarnam**
Mae'r eglwys yn dyddio o gyfnod y Normaniaid ond at ei gilydd mae'n perthyn i'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg, gyda pheth gwaith adnewyddu o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Grant am £5,000 ar gyfer gwaith cerrig y tu allan i'r eglwys a'r tu mewn iddi.
*Mynediad 1/3*

## Bro Morgannwg

**Cerflun David Davies, Dociau'r Barri**
Cerflun trawiadol yw hwn, wedi'i gynllunio'n gain gan Alfred Gilbert ac wedi'i fwrw'n dra manwl gan George Broad o Lundain. Roedd David Davies wedi creu gyrfa lwyddiannus iddo'i hun fel diwydiannwr ac o ganlyniad i'w ymdrechion daeth Dociau'r Barri'n un o'r porthladdoedd prysuraf yn y byd. Grant am £3,000 i atgyweirio ac adnewyddu'r cerflun.
*Mynediad 4*

**Capel Galilee (adfail), Eglwys Illtud Sant, Llanilltud Fawr**
Lleolir Capel Galilee ym mhen gorllewinol yr eglwys fawreddog ac mae wedi bod yn gragen ers amser maith. Mae'n debyg ei bod yn perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg, ac yn ddiweddarach yn ôl pob tebyg bu'n gapel côr. Grant am £6,400 ar gyfer gwaith i atgyfnerthu'r waliau adfeiliedig.
*Mynediad 1/3*

## Wrecsam

**Gatiau Porthordy Mereside, Gredington, Hanmer**
A hwythau wedi'u lleoli wrth fynedfa segur i'r parc yn Gredington, saif y gatiau hyn o ddechrau'r ddeunawfed ganrif ychydig o bellter ar hyd y ffordd o Eglwys Sant Chad yn Hanmer. Grant am £3,000 i atgyweirio'r gatiau.
*Mynediad 2*

ATODIAD C

# Grantiau ar Gyfer Ardaloedd Cadwraeth

**Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adran 77**

**Grantiau a Gynigiwyd 1 Ebrill 1999 – 31 Mawrth 2000**

Cynigiwyd grantiau tuag at gost cynlluniau a fyddai'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at warchod neu wella ardaloedd cadwraeth.

Nodweddion pwysicaf yr adeiladau hyn yw eu tu allan a gellir eu gweld o'r stryd.

| *Ardal Gadwraeth* | *Adeilad* | *Grant £* |
|---|---|---|
| **YNYS MÔN** | | |
| Aberffraw | Tŷ Capel, Stryd y Capel | 7,050 |
| Biwmares | 16 Teras Fictoria | 1,220 |
| Caergybi | Capel y Tabernacl, Stryd Thomas | 1,600 |
| Llanfechell | Eglwys Sant Mechell | 12,400 |
| **CAERDYDD** | | |
| Pen y Pier | 1 Windsor Esplanade, y Dociau | * |
| **SIR GAERFYRDDIN** | | |
| Talacharn | Sea View, Stryd Fictoria | * |
| **CEREDIGION** | | |
| Aberystwyth | Eglwys Mihangel Sant a'r Holl Angylion, Plas Laura | 26,000 |
| Aberystwyth | Eglwys Plwyf y Drindod Sanctaidd, Plas y Drindod | 24,800 |
| Tregaron | Gwesty'r Talbot, Y Sgwâr | 13,000 |

CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

## ATODIAD C

| | | |
|---|---|---|
| **SIR DDINBYCH** | | |
| Tref y Rhyl | Christ Church, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Stryd y Dŵr | 52,000 |
| Corwen | Eglwys Santes Fair Fadlen, Cerrigydrudion | 12,000 |
| **SIR Y FFLINT** | | |
| Caerwys | Henllys ('Old Court'), Y Stryd Fawr | 10,500 |
| Penarlâg | Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint Yr Hen Reithordy, Lôn y Rheithordy | 22,500 |
| Penarlâg | Ffynnon Goffa Gladstone | 6,000 |
| **GWYNEDD** | | |
| Abermaw | 1 Rock Terrace | 6,800 |
| Dolgellau | Gwesty'r Llew Aur (Bar y Stabl) | 690 |
| Tremadog | Eglwys y Santes Fair, Stryd yr Eglwys | * |
| Bangor Uchaf | Eglwys y Forwyn Fair a Sant Iago | 13,400 |
| **CASNEWYDD** | | |
| Caerllion | Eglwys Sant Cadog, Y Stryd Fawr | 18,800 |
| **SIR FYNWY** | | |
| Cas-gwent | Eglwys y Bedyddwyr Cas-gwent Stryd yr Eglwys | 2,000 |
| Cas-gwent | Yr Hen Ficerdy, 48 Stryd y Bont | 1,500 |
| Brynbuga | 23 Stryd y Farchnad Newydd | 7,500 |
| **SIR BENFRO** | | |
| Wdig | Fern Villa, Plas-y-Gamil | 9,000 |

## ATODIAD C

| **POWYS** | | |
|---|---|---|
| Aberhonddu | Y Deondy Newydd a Thŵr Bach | 12,000 |
| Y Gelli Gandryll | 1 Stryd y Bont | 7,500 |
| Y Gelli Gandryll | Inglenook (Rhif 8), Stryd yr Eglwys | 7,500 |
| Llandysul | Eglwys Sant Tysul | 22,000 |
| Llanfair Caereinion | Y Neuadd a'r Institiwt Gyhoeddus | 1,500 |
| Trefaldwyn | Gwesty'r Ddraig, Sgwâr y Farchnad | 4,500 |

| **RHONDDA CYNON TAFF** | | |
|---|---|---|
| Aberdâr | Eglwys Blwyf Ioan Fedyddiwr, Y Stryd Fawr | 3,600 |

| **TOR-FAEN** | | |
|---|---|---|
| Blaenafon | 19 Broad Street | 7,500 |
| Blaenafon | Ysgol Pedr Sant, Heol yr Eglwys (Canolfan Astudio Ramfield) | 12,500 |
| Blaenafon | Neuadd y Dref, Stryd y Llew | 15,000 |
| Pont-y-pŵl | Adeiladau'r Parc | 1,250 |
| Pont-y-pŵl | Bythynnod y Parc | 12,500 |

| **BRO MORGANNWG** | | |
|---|---|---|
| Tregolwyn | Eglwys Mihangel Sant a'r Holl Angylion | 20,000 |

* Cynlluniau yr argymhellodd y Cyngor y dylent dderbyn grant ond yn ddarostygedig i amodau, megis cytuno ar gynllun atgyweirio addas, cyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch lefel y grant.

ATODIAD D

# Rôl a Chyfeiriad Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn y Dyfodol

**Cefndir**

Corff cyhoeddus yw Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru a noddir gan y Cynulliad ac a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth sylfaenol – sef Deddf Adeiladau Hanesyddol ac Henebion 1953; ei rôl yw rhoi cyngor annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion sy'n ymwneud a threftadaeth adeiledig Cymru ac, yn arbennig, ar geisiadau am grant gan Cadw i atgyweirio a chynnal adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol ac adeiladau o bwys mewn ardaloedd cadwraeth.

**Aelodaeth**

Mae'r Cyngor yn cynnwys arbenigwyr mewn gwarchod adeiladau o bwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol. Mae ei Gadeirydd yn derbyn cyflog bach ond ni thelir y chwe aelod arall; yn dilyn y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau y Cynulliad bellach sy'n gyfrifol am wneud penodiadau. Mae'r Cadeirydd hefyd yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Cadw, sy'n cyfarfod bob chwarter i arolygu perfformiad cyffredinol Cadw.

**Adroddiad Blynyddol**

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i CAH gyhoeddi adroddiad blynyddol, a gâi ei osod gynt o flaen y Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ond sydd bellach yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad a'i gyhoeddi ganddo.

**Rôl CAH**

Ceir cylch gorchwyl y Cyngor yn Atodiad A.
Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn ffurfiol bum gwaith y flwyddyn, gan gynnal cyfarfodydd busnes a gwneud ymweliadau ag eiddo y mae ceisiadau grant wedi'u gwneud ar eu cyfer ledled Cymru. Mae'r Cyngor wedi cynnal dros 200 o gyfarfodydd. Yn ogystal, ymgynghorir ag aelodau ar faterion dadleuol neu faterion sy'n achosi pryder ar sail ad hoc ac yn aml mae aelodau yn cynnal archwiliadau ad hoc o adeiladau gan gynnig cyngor pan na fydd yn ymarferol neu'n angenrheidiol i'r Cyngor cyfan ymweld â hwy. Daeth arolwg o'r Cyngor ym 1997 i'r casgliad ei fod yn darparu ffynhonnell effeithlon a chost-effeithiol o gyngor arbenigol annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwlad ar y pryd ac y dylid ei gadw.

## ATODIAD D

Prif ganolbwynt sylw'r Cyngor fu'r gwaith o ystyried ceisiadau unigol am grantiau a bu'n llwyddiannus wrth sicrhau bod llawer iawn o adeiladau hanesyddol pwysig heb gael eu colli i'r cenedlaethau i ddod o ganlyniad i ddirywio, dadfeilio neu hyd yn oed o ganlyniad iddynt gael eu dymchwel. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi meini prawf a ddefnyddir ganddo i ystyried a yw adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol; ceir y meini prawf hyn yn Atodiad B.

Mae rôl cynllun grant cyfredol y Cyngor a Cadw ar gyfer adeiladau hanesyddol wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer. Fel mater o bolisi, mae grantiau wedi'u cyfeirio bron yn ddieithriad at atgyweirio'r adeiladwaith hanesyddol, yn hytrach nag at newidiadau neu amnewidiadau. Mae grantiau wedi'u rhoi hefyd i awdurdodau lleol tuag at atgyweirio adeiladau mewn ardaloedd Cynlluniau Trefi Hanesyddol o fewn yr awdurdodau lleol y cytunwyd arnynt, tuag at gaffael adeiladau mewn perygl a thuag at gost gwaith o dan weithdrefnau hysybysu gwaith atgyweirio, pan nas cafwyd yn ôl.

### Cyfeiriad CAH yn y Dyfodol

Bu Cadw a'r Cyngor yn ymwybodol bod angen arolygu'n rheolaidd y trefniadau grant i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion treftadaeth adeiledig Cymru yn awr ac yn y dyfodol a bod adnoddau'n cael eu targedu lle y mae eu hangen fwyaf. O ran yr adeiladau sydd wedi derbyn grant mae'r cyfeiriad wedi tueddu i symud o dai mawr i gynnwys ystod eang o adeiladau hanesyddol eraill, megis eglwysi a chapeli sy'n cael eu defnyddio, eglwysi cadeiriol, adeiladau brodorol, nodweddion adeiledig mewn gerddi hanesyddol ac, yn arbennig, grantiau ar gyfer gwaith brys i adeiladau sydd mewn perygl o gael eu dinistrio. Hefyd dros y blynyddoedd daethpwyd i werthfawrogi treftadaeth fwyfwy ac i sylweddoli bod atgyweirio ac ailddefnyddio adeiladau yn ei hanfod yn ddefnydd cynaladwy o adnoddau.

O ganlyniad i newidiadau mewn amgylchiadau, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Cadw i ystyried systemau newydd ar gyfer rhoi grantiau i adeiladau hanesyddol, gan symud i ffwrdd o'r dull hollgynhwysol presennol i gynllun mwy strwythuredig sydd â blaenoriaethau cliriach ac sy'n fwy tryloyw i ymgeiswyr ac yn fwy atebol iddynt. Mae Cadw wedi ymgynghori ar opsiynau am gynllun newydd ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Asiantaeth ar gyflwyno argymhellion i aelodau'r Cynulliad ar gyfer trefniadau diwygiedig.

Wrth ystyried ei rôl ac amcanion cyffredinol, mae'r Cyngor yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r gwerth ychwanegol sydd i warchod treftadaeth, yn nhermau hyrwyddo datblygiad cynaladwy a chyfrannu at adfywio'r gymdeithas a'r economi leol. Wrth wneud hyn, mae'r Cyngor yn ymwybodol na ddylai edrych ar ei waith mewn gwacter eithr y dylai annog Cadw ac asiantaethau eraill i gydweithio.

## ATODIAD D

Mae'r Cyngor yn bwriadu sefydlu deialog â Chronfa Treftadaeth y Loteri ac awdurdodau eglwysig gyda'r bwriad o geisio sicrhau mwy o gydlyniad i'r cymorth a roddir i adeiladau hanesyddol. Hefyd mae'n cydnabod y potensial sydd i ddefnyddio grantiau Cadw fel rhan o gynlluniau atgyweirio tai'r awdurdodau lleol mewn ardaloedd cadwraeth i sicrhau y diogelir adeiladwaith hanesyddol y tai hynny; a bydd yn ymchwilio ar y cyd â Cadw i ffyrdd o dynnu asiantaethau eraill i mewn, megis Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, fel y gellir cynllunio cynlluniau gwella a fydd o les i bawb.

Wrth wneud argymhellion sy'n cynnwys defnyddio arian cyhoeddus, bydd y Cyngor, ynghyd â Cadw, yn edrych am ddulliau o annog ymwybyddiaeth ehangach ymhlith y cyhoedd o adeiladau hanesyddol a'r mynediad iddynt, gan gynnwys, ble bynnag y bo modd, fynediad i bobl anabl.

Fel corff annibynnol, bydd y Cyngor hefyd yn parhau i dynnu sylw Cadw at faterion o bwys i dreftadaeth adeiledig Cymru; bydd yn parhau i fabwysiadu safbwynt annibynnol a bydd yn rhagweithredol wrth fynd i'r afael â materion allweddol.

**Amcanion Polisi ar gyfer 2000 a thu hwnt**

Bydd CAH yn
- cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar geisiadau unigol am grantiau o fewn ei gylch gorchwyl a'i feini prawf cyhoeddedig;
- cyfrannu at y strategaeth ehangach o annog gwarchod yr holl adeiladau sydd, yn ei farn, o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol eithriadol ac at wella ardaloedd cadwraeth;
- datblygu a chynnal golwg strategol eang ar dreftadaeth adeiledig Cymru, sy'n pennu lle i adeiladau o bob math ac sy'n cymryd i ystyriaeth amrywiaeth daearyddol a chymdeithasol;
- rhoi ystyriaeth lawn i egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd gan sicrhau bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r adeiladau hynny sydd â'r angen mwyaf, a hynny o fewn cyd-destun trefniadau Cadw ar gyfer rhoi grantiau i adeiladau hanesyddol, fel y sicrheir bod argymhellion yn cael eu gwneud mewn modd teg ac agored;
- sicrhau bod ei argymhellion yn cynrychioli'r 'gwerth gorau'; a gosod safonau ansawdd o ran gwarchod y dreftadaeth adeiledig;
- hyrwyddo a gweithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau eraill i sirchau dull cyson a chydlyniad yn y dreftadaeth adeiledig;
- hyrwyddo'r cyfraniad cadarnhaol y gall gwarchod y dreftadaeth adeiledig ei ddwyn i strategaethau ehangach ar gyfer agendâu sy'n ymwneud ag adfywiad a chynaladwyedd;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ac annog mynediad ar raddfa fwy i'r cyhoedd i eiddo syn derbyn cymorth gan Cadw.

ATODIAD D Atodlen A

## Cylch Gorchwyl

1. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arfer ei bwerau o dan Ran 1 o'r Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 fel y'i diwygiwyd, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac ar faterion cyffredinol eraill, sef:

i. rhoi grantiau a benthyciadau tuag at atgyweirio neu gynnal adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol neu eu cynnwys neu dir sy'n cyffinio â hwy ynghyd â gerddi neu diroedd eraill o ddiddordeb hanesyddol eithriadol;

ii. trwy gaffael ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eraill, a hynny trwy eu prynu, eu prydlesu neu fel arall, neu drwy eu derbyn yn anrhegion; neu gynnwys y cyfryw adeiladau neu'r tiroedd sy'n cyffinio â hwy neu gynnwys adeiladau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn warcheidwad arnynt o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, neu gynnwys adeiladau sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a phan werthir unrhyw eiddo a gaffaeliwyd neu a dderbyniwyd yn y modd hwnnw;

iii. rhoi grantiau i awdurdodau lleol tuag at gaffael adeiladau o dan Adran 47 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ac i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at gaffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol;

iv. rhestru adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac arfer swyddogaethau eraill y Cynulliad mewn perthynas ag adeiladau o'r fath o dan Ddeddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

2. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arfer ei bwerau o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 fel y'i diwygiwyd i roi grantiau neu fenthyciadau tuag at gynlluniau sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at warchod, neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth a rhoi grantiau tuag at atgyweirio adeiladau a gynhwysir mewn Cynllun Tref Hanesyddol ac sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

3. Rhoi cyngor i Swyddfa Trethi Cyfalaf a'r Trysorlys ar eithrio adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol, y tir sy'n cyffinio â hwy, a thir o ddiddordeb hanesyddol eithriadol o Dreth Drosglwyddo Cyfalaf.

ATODIAD D Atodlen A

4. Gosod cyflwyniadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os ymddengys i'r Cyngor fod angen gweithredu ar unwaith o dan Ran 1 o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953.

5. Cynnal arolwg parhaus o gyflwr cyffredinol adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol ledled Cymru. Cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad ar gyflwr yr adeiladau hyn ac ar ffyrdd o ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol. Gwneud awgrymiadau ynghylch defnyddiau posibl ar gyfer adeiladau penodol pan fydd y Cynulliad yn gofyn iddo.

ATODIAD D Atodlen B

# Diffiniad o Adeiladau o Ddiddordeb Hanesyddol neu Bensaernïol Eithriadol

Mae Cyngor Adeiladau Hanesyddol yn ystyried rhinweddau adeiladau o bob math yng Nghymru. Mae Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 yn darparu mai dim ond enghreifftiau y bernir eu bod o "ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol" sy'n gymwys ar gyfer derbyn grantiau. Mae asesu adeiladau bob amser yn fater o farn; gellir barnu gwahanol fathau o adeiladau — adeiladau crefyddol, tai, adeiladau diwydiannol, ayb — mewn ffyrdd gwahanol. Amhosibl yw defnyddio rheolau cadarn i fesur a yw cais yn gymwys ar gyfer derbyn grant neu beidio, ond yn ogystal â chyflwr yr adeilad, yn gyffredinol ystyrir y meini prawf canlynol (nad ydynt yn nhrefn pwysicrwydd):

**Diddordeb Hanesyddol**

a. cysylltiad cryf â digwyddiad hanesyddol o bwys;
b. cysylltiad cryf â pherson pwysig mewn hanes;
c. cysylltiad cryf â mudiad pwysig (e.e. crefyddol, gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, ayb.);
ch. cysylltiad cryf â chyflawniad diwylliannol neu ddiwydiannol pwysig.

**Diddordeb Pensaernïol**

a. ansawdd y bensaernïaeth (gall hyn ddeillio cymaint o ffurf syml adeilad brodorol ag o fanylion pensaernïol moethus adeilad crefyddol, neu faintioli mawr plasty);
b. ei bwysigrwydd o fewn lleoliad o safon bwysig (tirlun, treflun, ayb.);
c. ei bwysigrwydd fel enghraifft nodweddiadol o waith pensaer o bwys, neu fel cyfraniad o bwys i hanes pensaernïaeth;
ch. ei bwysigrwydd fel enghraifft glasurol o ddull penodol, mudiad neu fath o adeilad;
d. ei bwysigrwydd fel enghraifft brin o fath o adeilad penodol, ffurf adeileddol neu fel un sydd wedi goroesi, neu ddull hanesyddol o adeiladu gan gynnwys adeiladau lleol, a fu gynt yn nodweddiadol, sydd erbyn hyn mewn perygl o ddiflannu;
dd. ei bwysigrwydd fel enghraifft o gyfraniad arloesol at dechnoleg adeiladu.